BWRDD RHEOLI PARTNERIAETH CEREDIGION
CYNLLUN GRANTIAU "CYMUNEDAU'R DYFODOL"
MEINI PRAWF A CHANLLAWIAU

Disgrifiad
Cynllun grantiau dewisol a weinyddir gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran Bwrdd Rheoli Partneriaeth Ceredigion (BRhP) yn rhinwedd ei swydd fel Corff Arweiniol. Mae wedi ei gynllunio er mwyn galluogi ac annog cyrff gwirfoddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau adfywio cynaliadwy sydd â ffocws cyfalaf ac yn gymunedol gyda gogwydd economaidd gymdeithasol. Dan gyfarwyddyd Bwrdd Rheoli'r Bartneriaeth, bydd y Cyngor Sir neu ei gynrychiolwyr penodedig, yn rhoddi grantiau ac yn monitro perfformiad y prosiect dilynol ar y cyd â'r WDA a phartïon eraill perthnasol.

Rhagwelir y bydd Bwrdd Rheoli'r Bartneriaeth yn derbyn nifer o geisiadau am gynllun grantiau "Cymunedau'r Dyfodol" ac fe gaiff pob cais ei asesu'n unol â'r meini prawf a'r canllawiau isod. Bydd penderfyniadau Bwrdd Rheoli'r Bartneriaeth yn derfynol a byddant yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

Amseriad
Gweithredu rhaglen dreigl fel y bydd modd cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg o 1/09/02 hyd 31/01/05. 30/09/05 fydd y dyddiad ar gyfer cwblhau pob gwariant ar brosiectau.

Cyfeiriad ar gyfer Gohebiaeth
Uned Ewropeaidd ac Adfywio Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

Pa Fathau o Brosiectau Ydym am eu Cyllido

Mae'r Cynllun yn chwilio am geisiadau gydag ***elfen gyfalaf gref*** *sydd* ***o natur economaidd neu economaidd gymdeithasol*** *ac sy'n cyflawni un neu ragor o'r canlynol:*

- *Helpu i ddarparu cyfleusterau yn y gymuned a fydd yn caniatáu amrywiaeth o weithgareddau cymunedol gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer y celfyddydau, gweithgareddau diwylliannol a hamdden, gofal ar gyfer plant a dibynyddion a chysylltiadau â'r farchnad lafur megis hyfforddiant o fewn cyrraedd, canolfannau adnoddau cyflogaeth a chyngor.*
- *Fe'u defnyddir i ddatblygu neu fod yn rhan o becynnau cyllido ar gyfer cynlluniau mwy, er y dylai ymgeiswyr ddeall NA DDYLID defnyddio'r cynllun hwn i gael cyllid cyfatebol ar gyfer cais am gyllid Ewropeaidd. Mae croeso neilltuol i gysylltiadau â Chymunedau'n Gyntaf.*
- *Gwneud cludiant yn fwy cyraeddadwy ar gyfer grwpiau ymylol trwy hybu cynlluniau cludiant cymunedol i gymdogaethau anghysbell.*
- *Helpu i ddarparu a hybu cyfranogiad y gymuned mewn cynlluniau sy'n ymwneud â'r rhwystrau i gyflogaeth sy'n codi o anghydraddoldeb iechyd, diogelwch cymunedol, a chamau rhagocheliadol sy'n ymwneud â rhwystrau sy'n nadu pobl rhag ailymuno yn sgil troseddau ac ofn troseddau.*
- *Cynyddu mynediad i Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ynghyd â ffyrdd arloesol o gyflwyno pobl i dechnolegau newydd.*

---

1 Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer "Cymunedau'r Dyfodol" 25/04/03

- *Gwella gwasanaethau cymunedol a phrif ffrwd, sy'n cyfrannu at gynyddu cyfranogiad grwpiau ymylol yn y boblogaeth ym mywyd y gymuned.*
- *Cefnogi gwelliannau ffisegol ac amgylcheddol yn y gymuned sydd â ffocws economaidd neu economaidd gymdeithasol.*
- *Cefnogi prosiectau sy'n hybu cynlluniau egni neu wastraff cymunedol nad ydynt wedi eu cynnwys mewn canllawiau grantiau amgylcheddol eraill.*
- *Annog defnyddio Technoleg gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer datblygu a chefnogi mentrau cymunedol, yn enwedig lle bydd y fenter yn arwain at leihau effeithiau'r negyddol sydd ynglŷn â byw mewn ardaloedd anghysbell ac ymylol.*

Gofynion Hanfodol

Bydd **rhaid** i weithgareddau'r prosiect gyflawni'r canlynol:

1. Dylent fod yn gyson â'r fframwaith gweithgareddau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Lleol Ceredigion (**CGLl**). (Ar gael naill ai ar Wefan: www.euceredigion.co.uk/futurecommunities neu fel copi caled o swyddfa Penmorfa, (Ffôn 01545 572063).
2. Dylent ddangos eu bod yn medru profi'n glir yr angen am y prosiect ac y bydd buddiannau a chanlyniadau'r gwaith a gynllunnir yn ymdrin â'r anghenion hynny.
3. Dylent fod yn gyson â rheolau a rheoliadau Cronfa Ddatblygu Rhanbarthau Ewrop a'r rheoliadau Cymorth Gwladol; (cewch gyngor am hyn gan Gorff Arweiniol BRhP yn y Cyngor Sir ar. 01545 572063).
4. Dylent ddangos elfen gref o weithio mewn partneriaeth o ran datblygu prosiectau a dangos na fydd y gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio'n dyblygu unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau sy'n bod eisoes.

Swm a Hyd y Grant

£20,000 o gyfalaf fydd y grant uchaf a delir neu £20,000 o refeniw lle bydd modd ymestyn y gwariant refeniw tros 24 mis cyn belled ag y bydd yr holl wariant wedi ei gwblhau erbyn 30/9/05. £1000 yw'r grant isaf y mae modd ymgeisio amdano. Disgwylir i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf 25% at gostau cyfan y prosiect eu hunain neu o ffynonellau eraill. Gallai'r cyfraniad hwn fod ar ffurf ymarferol o ran amser cofnodedig gwirfoddolwyr – wedi ei brisio'n unol â chyfraddau cyfredol yr ESF. Gall hyd y prosiect fod rhwng 1 a 24 mis (cyn belled ei fod yn cael ei gwblhau erbyn 30/9/05). Ar gyfer prosiectau sy'n para mwy na blwyddyn, dylai ceisiadau am grantiau gael eu strwythuro ar sail 12 mis.

Hawlio Grant

Bydd angen i brosiectau gyflwyno **adroddiadau chwarterol o'u cynnydd** gan nodi sut mae'r prosiect yn cyrraedd y targedau a gytunwyd. Dan rai amgylchiadau, lle mae cyfiawnhad, efallai y gellid talu 50% o grant y flwyddyn "ymlaen llaw" yn ôl y targedau a'r canlyniadau a gytunwyd. Dan amgylchiadau o'r fath gellid hawlio balans y cyllid am y flwyddyn honno pan fyddai ¾ y taliad cyntaf wedi ei wario a'r targedau a'r canlyniadau a gytunwyd wedi eu cyflawni. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth yn dangos y **gwir wariant a wnaed**.

Os bydd y grant ar gyfer mwy na blwyddyn o weithgareddau, bydd rhaid rhoi cyfrif am yr holl wariant ar ddiwedd pob blwyddyn gontract cyn rhyddhau'r taliad nesaf.

---

1 Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer "Cymunedau'r Dyfodol" 25/04/03

Bydd y Cyngor yn ceisio prosesu hawliadau am daliadau cyn pen 3 diwrnod gwaith o gael yr wybodaeth briodol.

Os na fydd yr ymgeisydd yn cyrraedd y targedau a'r canlyniadau a gytunwyd nac yn rhoi cyfrif am y gwariant a wnaed gyda derbynebau dilys, bydd y Cyngor Sir yn cadw'r hawl i gymryd camau yn erbyn yr ymgeisydd i adennill cyfran o'r arian grant a roddwyd.

---

1 Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer "Cymunedau'r Dyfodol" 25/04/03

Gweithgareddau sy'n Gymwys i'w Cyllido

Gall gweithgareddau refeniw a chyfalaf fod yn gymwys i gael cyllid trwy'r grant hwn a bydd rhaid iddynt gyfrannu at ddatblygu Ceredigion fel y nodir yn y CGLl a bod yn gyson â rheoliadau Cronfa Ddatblygu Rhanbarthau Ewrop**;** gallent gynnwys:

- *Cyfraniadau ar gyfer swyddfeydd a chyfarpar neu gyfleusterau.*
- *Cyllid ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd lle na fyddai'r astudiaethau hynny'n cael eu cyllido o ffynonellau eraill.*
- *Costau cyfalaf sy'n ymwneud â chyfarpar ansymudol, gwaith adeiladu, a phrynu tir (lle mae prynu tir yn rhan fach o'r prosiect).*
- *Costau prynu cyfarpar Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu lle gellir dangos bod y cyfarpar yn rhan annatod ac angenrheidiol o'r prosiect .*
- *Lesio cerbydau sy'n gysylltiedig â chynlluniau cludiant cymunedol.*

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr. Os oes gennych chi gostau eraill y credwch chi eu bod yn gymwys cysylltwch â'r Corff Arweiniol am gyngor.

A yw'r Corff yn Gymwys

Bydd croeso arbennig i geisiadau gan grwpiau sy'n cynrychioli grwpiau difreintiedig a bregus. Fodd bynnag, bydd **rhaid** bodloni'r meini prawf isod:

- Dim ond i gyrff gwirfoddol sy'n gweithredu yng Ngheredigion ac y mae eu gweithgareddau wedi eu canolbwyntio yma y rhoddir grantiau.
- Bydd rhaid bod y cyrff wedi eu cyfansoddi'n llawn neu'n elusennau cofrestredig neu'n gwmnïau sydd wedi eu cyfyngu dan warant gyda statws dielw.
- Bydd rhaid i gyrff feddu ar gyfrif banc gydag o leiaf 2 o lofnodwyr.
- Dylai fod y cyrff yn cynrychioli naill ai ardaloedd daearyddol neu gymunedau buddiannau.
- Rhoddir blaenoriaeth i gyrff a all ddangos proses o ymgynghori gweithredol a phartneriaeth gyda chyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat ynghyd â'r gymuned lle maent yn gweithio.

Yr Amgylchedd
Dylai prosiectau fod yn **amgylcheddol gynaliadwy** a dangos eu bod wedi ymwneud â'r ystyriaethau amgylcheddol o ran datblygu'r cynllun a'r gweithredu arfaethedig arno. Mae'r nodiadau sydd ynghlwm yn rhoi rhai syniadau o ran sut y gallai ymgeiswyr ymgorffori ystyriaethau sy'n ymwneud â bod yn amgylcheddol gynaliadwy yn nyluniad eu prosiect.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Anogir prosiectau sydd wedi dangos defnydd arloesol ar TGCh lle bynnag y bo'n bosib.

Cyfle Cyfartal
Dylai'r rhai sy'n derbyn grantiau ddangos bod egwyddorion **cyfle cyfartal** wedi eu hintegreiddio yn eu prosiect.

---

1 Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer "Cymunedau'r Dyfodol" 25/04/03

Cyhoeddusrwydd
Bydd rhaid i bob prosiect gydnabod iddynt dderbyn cefnogaeth gan gynllun grantiau "Cymunedau'r Dyfodol" Bwrdd Rheoli Partneriaeth Ceredigion,gan ddefnyddio arian o'r Gronfa Adfywio Lleol a Chronfa Ddatblygu Rhanbarthau Ewrop yn yr holl ddogfennau cyhoeddusrwydd, cyfryngau, arwyddion ar y safle ayb.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw'r hawl i gyhoeddi manylion prosiectau llwyddiannus er mwyn dangos canlyniadau prosiectau a hyrwyddo arferion gorau.

Monitro ac Arfarnu
Bydd gan ymgeiswyr a rhai sy'n derbyn grantiau "fentor" a fydd yn eu cynghori a'u helpu i ddatblygu prosiectau a llanw ffurflenni. Hefyd bydd y "mentor" yn rhoi cyngor pan gaiff prosiectau eu gweithredu trwy gyfarfodydd rheolaidd i helpu derbynwyr grantiau adolygu eu cynnydd tuag at sicrhau allbynnau prosiectau fel swyddogaeth fonitro integredig.

Bydd derbynwyr grantiau'n cadw copïau o bob anfoneb a dogfennau eraill perthnasol i'r prosiect hwn am nid llai nac 8 wythnos. Bydd y dogfennau hyn ar gael ar gais gan Gyngor Sir Ceredigion, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'u hasiantiaid at y diben o archwilio llwyddiant y prosiect ac ar gyfer arfarnu'r cynllun grantiau. Bydd llythyrau o gymeradwyaeth yn cynnwys amod i alluogi Cyngor Sir **Ceredigion i gael arian yn ei ôl** os na fydd prosiectau'n llwyddo i gyflawni ei nodau a'i allbynnau cytunedig.
Hefyd bydd angen i brosiectau llwyddiannus ddangos bod ganddynt **ddulliau monitro effeithiol** ar waith i ddangos bod y prosiect yn cyflawni'r allbynnau fel y nodir ar y ffurflen gais.

---

1 Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer "Cymunedau'r Dyfodol" 25/04/03

Syniadau ar gyfer Ymgorffori Cynaladwyedd Amgylcheddol yn Nyluniad Prosiectau

Wrth ddylunio a datblygu prosiect dan y cynllun dyma rai o'r syniadau y gellid rhoi cyfrif amdanynt er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer cynaladwyedd amgylcheddol:

- Ystyriwch sut y gallai eich prosiect fod o fudd i'r amgylchedd lleol gan ymgorffori camau i sicrhau hyn

- Nodwch anghenion yr amgylchedd lleol trwy ymgynghori â budd-ddeiliaid a sicrhau eu cyfranogiad – e.e. cyfarfodydd cymunedol a gweithdai i nodi camau cynaliadwy i wella'r amgylchedd

- Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol/cymunedol, ceisiwch wneud y gorau o gynaladwyedd amgylcheddol y cynllun. E.e. a ydych chi wedi ystyried defnyddio rhywogaethau cynhenid o ran unrhyw gynlluniau tirlunio neu adennill tir, defnyddio cynlluniau arloesol i arbed dŵr neu egni neu ailgylchu neu raglen gyfnewid neu a ydych chi wedi delio â gwasanaethau lleol megis cynlluniau cludiant cymunedol?

- Ceisiwch wneud y gorau o unrhyw gyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth am gynaladwyedd amgylcheddol yn eich prosiect. A ellid gwella rhagor arno?

- Ceisiwch ddarganfod pa bethau y mae prosiectau neu grwpiau cymunedol eraill yn eich ardal wedi ei wneud o ran gwelliannau amgylcheddol. Efallai y gallech chi annog cynrychiolydd un o'r prosiectau/mentrau hyn i gyflwyno eu profiadau i'ch grŵp cymunedol chi?

- A fyddai eich prosiect yn un gwell/yn cael mwy o effaith pe câi ei gysylltu gyda grwpiau eraill?

RHAN-ARIENNIR GAN YR UNDEB EWROPEAIDD
PART-FINANCED BY THE EUROPEAN UNION

Ariannir y prsiect hwn yn rhannol gan Lywodraeth Cynlliad Cymru drwy Gyfrwng Cronfa Adfywio Lleol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

1 Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer "Cymunedau'r Dyfodol" 25/04/03

1 Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer “Cymunedau’r Dyfodol” 25/04/03